**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 11 Mai 2023 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart, Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Steve Hunt | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Darren Price | Cyngor Sir Gar |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Paul Boyle | Prifysgol Abertawe |
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Peter Austin | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Scott Dummett | Cyngor Abertawe |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Cyngor Abertawe |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Anthony Parnell | Cyngor Sir Gar |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Y Cynghorydd(wyr) David Simpson (Cyngor Sir Benfro)
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)
Tracey Meredith (Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe))

---

**57 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 58 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

## 59 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

## 60 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 61 Monitro Portffolio Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Phil Ryder adroddiad i hysbysu'r Cyd-bwyllgor o adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni / brosiectau cyfansoddol.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni / brosiectau cyfansoddol;
2) Darparu diweddariad ffurfiol neu anffurfiol ar y prosiectau Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS).

## 62 Dyraniad Dros Dro o £5.3m o Gronfeydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch - Crynodeb o Ddiwygiad y Prosiect.

Cyflwynodd Jonathan Burnes adroddiad i ofyn yn ffurfiol i Gyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe gymeradwyo diweddaru'r achos busnes Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel (SILCG) er mwyn cynnwys Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch gwell (AMPF), sef cynnwys Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero-net Genedlaethol.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:

1) Yn cymeradwyo bod y £5.3 miliwn o gyllid Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd heb ei ddyrannu yn cael ei ddyrannu mewn egwyddor i Gyngor Castell-nedd Port Talbot at y dibenion a amlinellir yn y Crynodeb Prosiect Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch gwell sydd ynghlwm wrth Atodiad A;
2) Yn gofyn i Gyngor Castell-nedd Port Talbot fwrw ymlaen yn ffurfiol i ddatblygu Achos Busnes SILCG i gynnwys y prosiect Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch gwell;
3) Yn cymeradwyo'r Achos Busnes gan ddilyn y broses cymeradwyo a newid achosion busnes fel yr amlinellir yn Atodiad B.

## 63 Adroddiad Buddsoddiad/Cyfraniad y Sector Preifat. (Er gwybodaeth)

Darparodd Peter Austin adroddiad "Er Gwybodaeth" i ddiweddaru Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe am y sefyllfa bresennol gyda buddsoddiad a chyfraniadau portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel yn Atodiad A.

## 64 Blaenraglen Waith y Cyd-bwyllgor.

Cyflwynodd Jonathan Burnes adroddiad i hysbysu Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe o'r Flaenraglen Waith ddiweddaraf.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn cymeradwyo'r Flaenragolen Waith fel yn Atodiad A.

## 65 Diolch.

Dywedodd y Cadeirydd fod Phil Ryder wedi llwyddo i sicrhau swydd newydd y tu allan i Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Ar ran y Pwyllgor diolchodd i Phil Ryder am ei holl waith gyda'r Fargen Ddinesig a'i gyfraniad i'r Rhanbarth.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.17 am

**Cadeirydd**